



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Beth mae angen i chi ei wybod am y Papur Gwyrdd
ar sicrhau llwybr tuag at gartref digonol - gan
gynnwys rhenti teg a fforddwyedd



Beth mae angen i chi ei wybod am y Papur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol - gan gynnwys rhenti teg a fforddadwyedd



**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi ei Phapur Gwyrdd ar sicrhau llwybr tuag at dai digonol - gan gynnwys rhenti teg a fforddadwyedd. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi canfyddiadau ymarfer mapio data cynhwysfawr a gynhaliwyd gan Alma Economics ym mis Tachwedd 2022 ac astudiaeth pen desg a gyflawnwyd gan Ganolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai. Amlygodd y ddwy astudiaeth feysydd lle mae yna fylchau yn y data.

Mae ymgynghoriad y Papur Gwyrdd yn ceisio barn a thystiolaeth am ddeall rhenti ac ymddygiad tenantiaid a landlordiaid. Mae hefyd yn ceisio barn am sut y gellir gwella cyflenwad a digonolrwydd tai dros amser. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio datblygiad Papur Gwyn y flwyddyn nesaf a fydd yn cynnwys cynigion i gyflawni digonolrwydd o ran tai, gan gynnwys rhenti teg a fforddadwyedd.

Beth yw tai digonol?

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y dylai pawb yng Nghymru allu cael cartref diogel a fforddiadwy sy'n diwallu eu hanghenion ar gyfer y gwahanol gyfnodau yn eu bywydau. Mae'r gallu i gyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng y cyflenwad a'r galw am gartrefi yn rhan o sicrhau y gall pawb yng Nghymru sicrhau cartref digonol.

Nid oes diffiniad yn y Deyrnas Unedig o ddigonolrwydd tai. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn nodi saith maen prawf y dylid eu bodloni er mwyn ystyried llety fel cartref digonol. Y rhain yw:

- Sicrwydd daliadaeth
- Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith
- Fforddadwyedd
- Addasrwydd i fyw ynddo
- Hygyrchedd
- Lleoliad
- Annigonolrwydd diwylliannol.

Digonolrwydd tai yng nghyd-destun cyflenwad a galw.

Mae'r Papur Gwyrdd yn creu cysylltiad rhwng argaeledd eiddo a gallu pobl i sicrhau cartref digonol. Mae'n nodi bod yn rhaid i gyflwyno digonolrwydd tai ymwneud â mwy na dim ond sicrhau rhywle i fyw. Ac eto, lle mae'r farchnad yn gystadleuol gyda chyflenwad cyfyngedig, efallai y bydd yn anodd cyflawni rhai mesurau digonolrwydd tai.

Yng Nghymru mae anghydbwysedd rhwng cyflenwad a galw. Mae'r Lwfans tai lleol (LTLI) wedi'i osod ar y 30ain canradd ar gyfer rhenti mewn ardal farchnad eang ac fe'i dylunnir i helpu'r aelwydydd hynny sy'n derbyn budd-daliadau lles. Mae cyfradd y LTLI sy'n daladwy wedi'i rhewi ers 2020 ac nid yw'n cadw i fyny â'r cynnydd presennol mewn rhenti. Nododd ymchwil gan Sefydliad Bevan ym mis Chwefror 2023 mai dim ond 32 eiddo yng Nghymru gyfan oedd ar gael ar gyfraddau LTLI¹.

Mae data Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod rhwng 78 a 90% o aelwydydd yn rhentu'n breifat mewn ardaloedd canol dinas. Mewn ardaloedd o alw mawr mae prisiau rhent yn gyfatebol uchel am fod y cyflenwad ychwanegol yn gyfyngedig.

Mewn rhai ardaloedd mae nifer y cartrefi a adeiladwyd dros gyfnod cynllun datblygu lleol (CDLI) yn brin o'r niferoedd a ddisgwyliwyd. Os na fodlonir targedau'r CDLI mae'n debygol o olygu nad yw'r cyflenwad yn ateb yr anghenion lleol ac y bydd darpar drigolion yn ei chael hi'n anoddach diwallu eu hanghenion tai'n ddigonol.

Mae lefelau'r cyflenwad hefyd wedi'u heffeithio mewn rhai cymunedau o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer yr ail gartrefi. Er bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â hyn, bydd ardaloedd o hyd lle na fydd cyflenwad yr eiddo i'w rentu'n ateb y galw.

¹Argyfwng Tai Cymru: Lwfans Tai Lleol a'r farchnad rhentu preifat yng Nghymru, Gaeaf 2023. <https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2023/03/Wales-Housing-Crisis-Winter-2023.pdf>.

Wrth i'r angen am gartrefi gynyddu a'r cyflenwad fethu â chadw i fyny, rydym yn gweld cynnydd mewn prisiau rhent. Y cynnydd rhent cyfartalog ar gyfer yr holl eiddo rhent preifat oedd 4.4% rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023. Y cynnydd cyfartalog ar gyfer gosodiadau newydd oedd 8.9% rhwng Ionawr 2022 ac Ionawr 2023. Bydd y cynnydd hwn yn effeithio ymhellach ar allu aelwyd i sicrhau cartref digonol.

Y farchnad rhentu preifat yng Nghymru

Rydym wedi gweld sut y gall cyflenwad a galw ddylanwadu ar allu unigolyn i ddiwallu ei anghenion tai yn ddigonol. Felly pa mor fawr yw'r farchnad rhentu preifat a faint mae'n ei gostio i rentu cartref yn breifat?

Dangosodd cyfrifiad 2021 fod 33.6 y cant o aelwydydd yng Nghymru yn rhentu'n breifat, sef cynnydd o 3% ers cyfrifiad 2011². Ar hyn o bryd mae mwy na hanner yr eiddo a rentir yng Nghymru yn y sector preifat. Mae 209,318 o gartrefi wedi'u cofrestru i'w rhentu yng Nghymru gyda 70 y cant o landlordiaid yn berchen ar un eiddo. Mae perchnogion sydd â mwy na deg o gartrefi'n berchen ar 21% o'r stoc tai. Mae dros 50% o landlordiaid dros 55 oed ac mae 25% dros 65 oed. Mae'n debygol y bydd trosiant o landlordiaid yn y dyfodol wrth i landlordiaid geisio ymddeol.

Y rhent misol cyfartalog ar hyn o bryd yw £577. Er hynny mae'r amrediad rhwng y rhent cyfartalog isaf ym Mlaenau Gwent (£425) a'r uchaf yng Nghaerdydd (770) yn sylweddol³. Mae Alma economics, yn eu hymarfer mapio a'u dadansoddi data, wedi defnyddio'r rhent canolrif gan y gall rhent cyfartalog gynnwys prisiau rhent uchel iawn ac isel iawn. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cywir o'r farchnad rhentu preifat yng Nghymru ac asesiad mwy cadarn o fforddadwyedd.

Incwm lleol a fforddadwyedd

Beth yw rhent teg?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai'r diffiniad o rent teg fod yn eang ac y dylid tybio ei fod yn golygu teg yng nghyd-destun ehangach tegwch, sef bod angen iddo fod yn deg ac yn fforddiadwy i bob parti. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyflenwad a'r ansawdd

yn cael eu cyfaddawdu. Mae angen iddo fod yn deg hefyd o ran bod yn rhesymol ac yn gymesur ag amgylchiadau penodol yr ardal gan ddeall yr effaith leol a'r effaith bosib ar ardaloedd gerllaw.

Bydd angen profi mesurau tegwch yn erbyn sut y maent yn effeithio ar ffactorau digonolrwydd tai eraill er mwyn sicrhau set gynhwysfawr o fesurau sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno cartrefi digonol.

Diffinio "incwm lleol" ac "incwm isel"

Nid oes diffiniad cytunedig o incwm lleol ac mae lefelau incwm cyfartalog yn amrywio yn ôl y ffin ofodol sy'n cael ei chymhwyso. Bydd lefelau incwm cyfartalog ar draws ardal cynnyrch ehangach haen is yn wahanol o'i gymharu â lefelau incwm cyfartalog ar draws ardal ffin rhwng awdurdodau lleol.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn diffinio aelwydydd fel rhai sydd mewn incwm isel os ydynt yn byw ar lai na 60 y cant o incwm cyfwerthedig net cyfartalog (canolrif) aelwydydd yn y DU⁴. Y cyfartaledd (canolrif) enillion wythnosol amser llawn yng Nghymru yn 2022 oedd £598.10. Mae hyn yn cyfateb i gyflog gros blyneddol o £31,101. Felly, os yw incwm cartref yn llai na £18,660 (60 y cant) byddai'r aelwyd yn cael ei diffinio fel "incwm isel".

Fforddadwyedd tai

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystyried bod cartref yn fforddiadwy os yw aelwyd yn gwario 30% neu lai o'i incwm ar rent. Gan ddefnyddio rheol 30% y Swyddfa Ystadegau Gwladol i'r trothwy incwm isel o £18,660 fel yr amlinellwyd uchod, £466.50 fyddai uchafswm y rhent misol fforddiadwy.

²Tai yng Nghymru (Cyfrifiad 2021). <https://www.llyw.cymru/tai-yng-nghymru-cyfrifiad-2021-html#112926>

³Fforddadwyedd rhent preifat, Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/privaterentalaffordabilityengland/2021>

⁴Yn aml, cyflwynir y canolrif fel mesur pennawd ar gyfer enillion cyfartalog am fod y dosraniad enillion wedi'i aflunio, gyda mwy o bobl yn ennill cyflogau is na chyflogau uwch. Mewn dosbarthiad sydd wedi'i aflunio gall nifer gymharol fach o werthoedd uchel ddylanwadu'n anghymesur ar y cymedr, gan ei dynnu i ffwrdd o'r hyn y gellid ei ystyried yn nodweddiadol. Nid yw'r canolrif yn cael ei effeithio gan werthoedd eithafol ac felly fe'i hystyriir yn ddangosydd gwell o enillion "cyfartalog" nodweddiadol.

Pan ystyriwn Ddangosyddion Cenedlaethol diweddaraf Llesiant Cymru, gwelwn fod 37.1 y cant o aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai. (Mae'r asesiad hwn o fforddadwyedd yn seiliedig ar yr arolwg adnoddau teulu sydd hefyd yn cynnwys yswiriant, y dreth gyngor a dŵr fel rhan o gostau tai).

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynhyrchu set ddata sy'n edrych ar y gymhareb fforddadwyedd yng Nghymru ar gyfer llety rhentu preifat. Mae hyn yn defnyddio'r pris rhentu canolrifol a'r incwm canolrifol. Mae hyn yn dangos bod aelwydydd dros y naw mlynedd diwethaf wedi gwario rhwng 21 a 23 y cant o'u hincwm ar gostau tai (yn y cyd-destun hwn dim ond pris y rhentu yw costau tai). Gan ddefnyddio'r data hwn, mae'n ymddangos nad oes gan Gymru broblem fforddadwyedd yn y sector rhentu preifat gan fod y gymhareb yn is na 30 y cant.

Ac eto os ydym yn ystyried fforddadwyedd ar gyfer y chwarterl isaf o enillwyr cyflog, mae wedi gwaethygu ers 2020, gyda 35% o'r incwm bellach yn cael ei wario ar rent. Mewn cyferbyniad, mae enillwyr yn y 50fed a'r 75eg canrannau wedi gweld fforddadwyedd yn gwella ychydig.

Bylchau data

Ar hyn o bryd mae data cyfyngedig ar renti lleol yng Nghymru. Po orau yw ansawdd y lefelau rhentu mewn ardal, y mwyaf o hyder y gallwn ei gael yn y rhentu marchnad gwirioneddol ac a yw hyn yn fforddiadwy ar gyfer aelwyd sy'n byw yn yr ardal.

Mesurau rheoli rhentu

Gall mesurau rheoli rhentu fod yn ymyriadau nad ydynt yn seiliedig ar bris fel mesurau rheoli troi allan neu reoleiddio asiantau gosod. Gall hefyd fod yn ymyriadau prisio y mae sawl dull yn bodoli ar eu cyfer. Mae'r dulliau wedi'u categorio fel:

- **Cenhedlaeth Gyntaf:** Cyfyngiad llym ar brisiau neu rewi rhentu.
- **Ail Genhedlaeth:** Caniateir cynnydd cymedrol mewn rhentu.
- **Trydedd Genhedlaeth:** Caiff rhenti eu hailosod ar lefelau'r farchnad neu'n agos atynt rhwng tenantiaethau.

Modelau rhentu cenhedlaeth gyntaf.

Mae tri model wedi'u disgrifio yn y Papur Gwyrdd. Model sy'n seiliedig ar gynnyrch, model sy'n seiliedig ar gostau a model cyflenwad fforddiadwy.



Model sy'n seiliedig ar gynnyrch

Gosodir uchafswm lefel rhent yn ôl cynnyrch canrannol sy'n seiliedig ar werth yr eiddo naill ai ar adeg ei brynu neu ar ddyddiad prasio y cytunir arno. Mae'r papur gwyrdd yn defnyddio cynnyrch net am fod hyn yn caniatáu ystyried costau buddsoddi i wella'r eiddo yn y dyfodol.

Model sy'n seiliedig ar gostau

Yn y model hwn, gall landlord ddefnyddio'r costau a geir wrth gynnal a chadw neu wella eiddo dros y deuddeg mis diwethaf i bennu'r rhent a all gael ei godi.

Model cyflenwi fforddiadwy

O dan y model hwn, byddai cyfran benodol o unedau adeiladu o'r newydd yn cael eu sicrhau ar gyfer rhent fforddiadwy drwy rwymedigaethau cynllunio adran 106. Gellir gwneud hyn mewn dwy ffordd wahanol:

• Model rhent lled-gymdeithasol

Byddai'r rhent fforddiadwy yn cael ei osod ar gyfradd y lwfans tai lleol am isafswm cyfnod o 25 mlynedd. Byddai opsiwn i RSL brynu ar y diwedd neu ddychwelyd i rent sector preifat yn dilyn taliad ariannol y cytunir arno sydd i'w ddefnyddio i sicrhau mwy o dai fforddiadwy.

• Model rhent canolradd

Cedwir nifer gytunedig o unedau i'w rhentu gyda'r rhent fforddiadwy yn 80 y cant o'r rhent marchnad ar gyfer yr ardal a'r math o eiddo.

Model rhent ail genhedlaeth.

Model seiliedig ar ynni / ansawdd

Byddai'r math hwn o fodel yn cysylltu rhenti â graddau perfformiad ynni cartref yn seiliedig ar fandiau rhent. Enghraifft o system fandio yw:

Band EPC	Terfyn Cap ar Rent
A	8 y cant
B	7 y cant
C	5 y cant
D	2 y cant
E	1 y cant

Model rhent trydedd genhedlaeth

Yn y model hwn byddai data'r swyddog rhent yn seiliedig ar ardaloedd marchnad rhent eang a mathau o eiddo er mwyn pennu mynegai o rhenti'r farchnad y byddai angen i landlordiaid eu defnyddio i osod y rhent ar gyfer eiddo.

Mynegeion sy'n seiliedig ar incwm

Byddai mynegeion sy'n seiliedig ar incwm yn nodi ardaloedd lle mae'r aelwyd gyfartalog yn gwario canran benodol o incwm ar rent, gan awgrymu bod fforddadwyedd yn broblem. Byddai hyn yn arwain at barthau pwysau ar rent a fyddai'n caniatáu ymyriad wedi'i dargedu o fesurau rheoli rhent mewn lleoliad daearyddol penodol, dros gyfnod diffiniedig.

Rheoli rhent yng ngweddill y Deyrnas Unedig

Yr Alban

Fel rhan o Ddeddf Costau Byw (Diogelu Tenantiaid) (Yr Alban) 2022 cyflwynwyd mesurau rheoli rhent cenhedlaeth gyntaf ar ffurf rhewi rhenti a moratoriwm ar droi allan. Mae hyn ond yn berthnasol i achosion o godi'r rhent yn ystod y denantiaeth. Ac eto yn ôl data'r ONS, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn rhenti tenantiaeth yn Yr Alban a welodd gynnydd o 5.1 y cant rhwng Mawrth 2022 a Mawrth 2023.

Gogledd Iwerddon

Cyflwynodd Gogledd Iwerddon system rheoleiddio rhenti yn Neddf Tenantiaethau Preifat (Gogledd Iwerddon) 2022. Mae'r ddeddf yn cyfyngu ar gynyddu'r rhent i unwaith ym mhob 12 mis ac yn caniatáu i reoliadau gael eu gwneud i rewi a/neu dorri rhenti hyd at 10 y cant am hyd at bedair blynedd. Mae hyn yn amodol ar ymgynghori â landlordiaid, cynrychiolwyr tenantiaid a chynghorau.

Lloegr

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud nad yw'n cefnogi mesurau rheolau rhent yn Lloegr. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae wedi gosod Bil gerbron senedd y DU i ddeddfu er mwyn sicrhau codi rhenti mewn ffordd sy'n fwy rhagweladwy.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae cyfanswm o 22 o gwestiynau wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyrdd. Gellir gweld y rhestr lawn [yma](#).

Barn gychwynnol CIH Cymru

Mae CIH Cymru yn llwyr gefnogi defnydd Llywodraeth Cymru o saith maen prawf y Cenhedloedd Unedig ar gyfer cartref digonol. Y meini prawf hyn sydd wedi ffurfio sail ein hymgyrch #Cefnogi'rMesur gyda'n partneriaid #Cefnogi'rMesur Tai Pawb a Shelter Cymru, i ymgorffori'r hawl i gartref digonol yng Nghyfraith Cymru'n llawn⁵.

Deddfwriaeth ddylai fod y mecanwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i ymgorffori safonau tai digonol yng nghyfraith Cymru, yn seiliedig ar y saith maen prawf hyn a nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig. A fyddai unrhyw un ohonom, fel gweithwyr tai proffesiynol neu yn wir, dinasyddion Cymru, yn anghytuno â'r farn y dylai Cymru anelu at y saith maen prawf hyn o ddigonolrwydd tai? A'r cwestiwn sydd wedyn yn ei gyflwyno ei hun mewn gwirionedd yw, pam nad ydyn ni'n gwneud hynny eisoes?

Bydd y ddeddfwriaeth yn ymgorffori'r hawl trwy ddull a wireddir fesul cam. Byddai'n gorfodi awdurdodau statudol i gyflwyno cynlluniau ynghylch sut rydym yn cyflwyno'r hawl dros raddfa amser o wireddu blaengar. Byddai'r cynlluniau'n nodi trefniadau monitro a mesurau gorfodi, yn ogystal â'r buddsoddiad sydd ei angen i fodloni cwrpas y ddeddfwriaeth. Cred CIH Cymru mai deddfwriaeth i ymgorffori'r hawl yng nghyfraith Cymru yw'r man cychwyn ar daith a fydd yn mynd i'r afael â materion eraill a godir yn y Papur Gwyrdd hwn o ran fforddadwyedd a darparu cartrefi digonol. I ni, mae'n amlwg mai nawr yw'r amser i weithredu a sicrhau newid cadarnhaol a pharhaus. Mae gan Gymru wreiddiau cyfiawnder cymdeithasol radicalaidd a thrawsnewidiol - mae Nye Bevan a chreu'r GIG yn dangos hyn. Tai yw'r hyn sy'n cyfateb i'r GIG yn yr 21ain Ganrif - ni wnaeth

ein rhagflaenwyr aros am ddigon o ysbytai, meddygon a nyrsys i ffurfio'r GIG - gwnaethant gydnabod y byddai deddfwriaeth yn ei symbylu a bwrw ymlaen â hi. A dyna'r ymagwedd y dylai fod gennym nawr wrth ymgorffori hawl i gartref digonol yng Nghymru.

Wedi dweud hynny, rydyn ni'n cydnabod y materion a godwyd gan y Papur Gwyrdd ynghylch fforddadwyedd yn y sector rhentu preifat yma yng Nghymru a'r angen am wneud y sector rhentu preifat yn fwy teg ar gyfer landlordiaid a thenantiaid. Ac eto, fel yr amlinellwyd yn ein hymchwil yng Ngogledd Iwerddon⁶, gallai mesurau rheoli rhent arwain at ganlyniadau anfwriadol ar adeg pan fo pwysau llym eisoes ar y cyflenwad o gartrefi rhent preifat yng Nghymru, gan ei gwneud yn anodd i ddygymod â'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n mynd i lety dros dro neu'n cael eu hychwanegu at restrau aros tai. Yn ôl yr ymchwil yng Ngogledd Iwerddon, dywedodd hyd at ddau draean o landlordiaid y byddent yn gadael y farchnad os cyflwynir mesurau rheoli rhent, a cheir awgrymiadau tebyg gan landlordiaid preifat yng Nghymru.

Yr hyn oedd ei angen yn lle hynny, yn ôl yr ymchwil, oedd ffyrdd amgen o fynd i'r afael â mater fforddadwyedd. Gellid cyflawni hyn drwy fesurau diwygio lles, sydd hefyd yn cael



⁵Yr hawl i gartref digonol yng Nghymru: y sylfaen dystiolaeth. Adroddiad ymchwil annibynnol gan Alma Economics. Wedi'i gomisiynu gan Tai Pawb, Y Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru. https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/Alma-Economics-Back-the-Bill-Phase-1-Full-Report_cym.pdf

⁶Yr hawl i gartref digonol yng Nghymru: y sylfaen dystiolaeth. Adroddiad ymchwil annibynnol gan Alma Economics. Wedi'i gomisiynu gan Tai Pawb, Sefydliad Tai Siartredig Cymru a Shelter Cymru. https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2022/01/Alma-Economics-Back-the-Bill-Phase-1-Full-Report_cym.pdf

eu cefnogi gan aelodau a gyfrannodd at yr ymgynghoriad diweddar ar y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Ystyriwyd bod diwygio lles yn well na mesurau rheoli rhent. Bu pryderon, a byddem yn adleisio'r rhain, y gallai mesurau rheoli rhent arwain at grebachiad pellach yn y farchnad rhentu preifat, gan arwain at gynydd mewn prisiau rhentu. Economeg syml y farchnad yw hon - pan fo'r galw yn uchel a'r cyflenwad yn isel, mae'n anochel y bydd prisiau'n codi. Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros les ac rydym ar hyn o bryd mewn argyfwng costau byw dwys ac estynedig, felly a allai ymyriadau tymor byr penodol sydd wedi'u targedu at ardaloedd marchnad rhentu tra lleol liniaru rhai pwysau, yn enwedig os cânt eu cysylltu â gwella safonau o fewn stoc y SRHP?

Mae'r rhain oll yn gwestiynau y mae'r Papur Gwyrdd yn ceisio eu hateb cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn - ymrwymiad cytundeb cydweithredu Llafur/Plaid Cymru - sydd i'w gyhoeddi ddechrau'r flwyddyn nesaf. Rydym am ymchwilio i'r cwestiynau a godwyd yn y Papur Gwyrdd gyda chi, ein haelodau yng Nghymru, a byddwn yn ymgysylltu â chi mewn nifer o ffyrdd dros y misoedd i ddod cyn i ni roi ein cyflwyniad i'r ymgynghoriad ddechrau mis Medi.

Mae ein neges i Lywodraeth Cymru yn parhau'n glir, credwn mai deddfwriaeth i ymgorffori'r hawl i gartref digonol yng nghyfraith Cymru yw'r man cychwyn sy'n darparu'r newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn ystyried tai a'r buddsoddiad a'r amlygrwydd a roddir iddo yn y drafodaeth polisi cyhoeddus ehangach yng Nghymru er mwyn cyflwyno'r newid parhaus yr ydym ni, fel gweithwyr proffesiynol tai, i gyd yn dyheu am ei gyflawni.

Mwy o wybodaeth

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y Papur Gwyrdd [yma](#).

Bydd CIH Cymru yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd erbyn 15 Medi 2023. Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu i edrych ar y Papur Gwyrdd a chyfeirio ein hymateb i Lywodraeth Cymru.

Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth gan aelodau i'n helpu cyfeirio a siapio ein cyfraniad. Cysylltwch â'n rheolwr polisi a materion cyhoeddus Cerys Clark drwy e-bostio clark@cih.org.uk gydag unrhyw feddyliau sy'n berthnasol i'r gwaith hwn.

